

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru

# Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth 2020-2023

# Adroddiad Cyflenwi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagymadrodd | 04 |
| Uchafbwyntiau'r Strategaeth | 05 |
| Masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm | 06 |
| Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau | 13 |
| Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 19 |

## Beth yw Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru?

Mae Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) dan aden Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi'i chynllunio i gefnogi ystod eang o weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth sy'n cyfrannu at effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys gweithio gyda diwydiant a busnesau, yn ogystal â chefnogi entrepreneuriaeth a sgiliau. Mae'r gronfa hefyd yn ategu rôl ehangach prifysgolion Cymru o ran cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Yn Aberystwyth, mae'r gwaith o ddylunio a chyflwyno Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth a ariennir gan CAYC yn cael ei arwain gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA) ac mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y gweithgareddau a'r prosiectau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod cyllido 2020-2023.



# Rhagymadrodd

Nododd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2019-2024 weledigaeth y brifysgol ar gyfer ei rôl yn natblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru drwy gymhwyso'i gwybodaeth at heriau rhanbarthol a byd-eang.

Y weledigaeth hon a fwydodd ein Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth dan aden CAYC ar gyfer 2020-2023, a gyflwynodd raglen waith ar draws pedair colofn, sef Rhagoriaeth, Lle, Arloesi a Chydweithredu, i'w chyflawni trwy 40 o brosiectau o fewn yr amserlen strategol.

Mae Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth CAYC, ynghyd â'i chyllid, ei rhaglen weithgareddau a'i rheolaeth ar adnoddau, i gyd yn cael eu rheoli gan Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi y Brifysgol (YBA).

Defnyddiwyd y grant capasiti CAYC a ddyfarnwyd gan CCAUC yn bennaf i gynyddu'r adnoddau a ddynodwyd ar gyfer cyflawni'r portffolio o brosiectau CAYC yn YBA. Mewn cydweithrediad â phartneriaid a thrwy fanteisio ar ein cryfderau wedi'u seilio ar le mewn iaith, addysgu ac ymchwilio, sicrhawyd hefyd fod y grant capasiti yn cael ei ddefnyddio i wreiddio iaith a diwylliant Cymru yn ein gweithgareddau arloesi a chyfnewid gwybodaeth.

Daeth rheolwyr rhaglenni a phrosiectau newydd, yn ogystal â staff gweinyddol, â ffyrdd arloesol o weithio. Drwy gomisiynu ystod o offer digidol cafwyd mynediad a chyfathrebu cyflym, ar y pryd, ac o bell ar sawl ffrwd waith a fu'n fodd inni luosi'n gallu i gyflawni'r rhaglen o fewn yr amserlen strategol.

Recriwtio doniau ar gyfer y rhaglen waith bwrpasol hon oedd yr her fwyaf trwy gydol 2020-2023. Lliniarwyd y cyfyngiad hwn trwy ymgorffori methodolegau rheoli portffolios, rhaglenni a phrosiectau, cyflwyno newidiadau arloesol wrth recriwtio a strwythuro er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf posibl ar draws pob colofn swyddogaeth oedd yn mynd i'r afael â thair thema newid mawr: trawsnewid digidol, datblygu sianeli cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu ag effaith.

Drwy welliant yn sgiliau digidol y staff, daeth y gweithio hybrid a orfodwyd gan bandemig COVID-19 yn effeithiol, a chafwyd gwell gweithio hefyd ar draws timau ac ar draws prosiectau, gan gynnwys cyd-ddatblygu prosiectau ar-lein. Amlygodd yr arloesedd hwn yr angen am systemau integredig a thryloywder yn y dyfodol i reoli'n gweithgareddau niferus a thrwy hynny gynhyrchu gwelliannau yn ein harferion cyfnewid gwybodaeth.

## Uchafbwyntiau’r Strategaeth 2020-2023

**Amlinelliad o alluogwyr a chyflawniadau allweddol y Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2020 a 2023:**

### Buddsoddi mewn Sgiliau, Staff a Gwasanaethau

Roedd cynyddu’r staff sydd wedi’u dynodi i gyflawni prosiectau cyfnewid gwybodaeth a gwella’n perfformiad yn cynnwys integreiddio 12 o swyddi newydd, gyda hyfforddiant pwrpasol ar draws staff y gwasanaethau proffesiynol a’r staff academaidd, ynghyd ag arbenigwyr allweddol a fu’n hyfforddi ac yn rhannu’r arferion gorau.

### Digideiddio Newydd a Gwell

Cyflwyno systemau meddalwedd newydd a gynyddodd gapasiti a chyflymder ein gwasanaeth mewn byd sy’n gweithio o bell, gan wella’r gwaith o goladu a chyflwyno data a oedd yn gwella’r cyfathrebu, y cywirdeb a’r penderfyniadau, yn ogystal â chaniatáu inni fesur ein gwelliannau mewn perfformiad yn effeithiol.

### Cynllunio at y Tymor Hwy

Cafodd buddsoddiadau mewn seilwaith, sgiliau a chapasiti yn y dyfodol eu hymgorffori ochr yn ochr â strategaethau sefydliadol.



# Masnacheiddio a Gweithgarwch Cynhyrchu Incwm

## Datblygu’r Ganolfan Ddeialog: Cam Un

**Nod: Sefydlu Canolfan Ddeialog ym Mhrifysgol Aberystwyth, a honno’n creu cyfleoedd arloesol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar y cyd.**

Datblygwyd Canolfan Ddeialog Aberystwyth mewn ymgynghoriad â Chanolfan Ddeialog Prifysgol Simon Fraser yn Vancouver, Canada yn ogystal ag ymgynghorwyr rhyngwladol eraill o Awstralia a Seland Newydd. Fe’i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2022 mewn digwyddiad gyda chyn Archesgob Caergaint, yr Athro Rowan Williams.

Arweiniodd ymgynghoriadau i sefydlu perthnasau strategol a gwaith recriwtio rhyngwladol at benodi’r Dr Jennifer Wolowic yn Brif Arweinydd y Ganolfan Ddeialog yn gynnar yn 2023. Ers ei lansio, mae’r Ganolfan Ddeialog wedi hwyluso digwyddiadau sy’n amrywio o ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd mewnol a hyfforddiant staff, i weithdai myfyrwyr a digwyddiadau ymgysylltu yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Roedd pob gweithgaredd allanol yn cynnwys rhwng 20 a 50 o gyfranogwyr o bob rhan o’r gymuned, y sector cyhoeddus, busnes a’r trydydd sector, yn ogystal ag ymchwilwyr academaidd.

Nododd galwad fewnol am gyllid brosiectau sy’n addas iawn i dreialu potensial y Ganolfan Ddeialog i ennyn diddordeb arweinwyr academaidd deialog a’u cymunedau. Cyflawnwyd cyfanswm o bum prosiect ar bynciau fel Un Iechyd, Llesiant, Dyfodol Cyfansoddiadol a Heneiddio’n Iach.



## Datblygu’r Ganolfan Ddeialog – Cam Dau

**Nod: Adleoli gweithgareddau’r Ganolfan Ddeialog i’r Hen Goleg.**



Mae oedi sylweddol yn yr amserlen adeiladu oherwydd y rhyfel yn Wcráin a phandemig COVID-19 wedi gohirio adnewyddu’r Hen Goleg. O ganlyniad, cafodd adleoliad arfaethedig y Ganolfan Ddeialog ei symud i’r cylch strategol nesaf. Agorwyd lle dros dro ar gyfer cyfnewid gwybodaeth arloesol, y Tŷ Trafod Ymchwil, ym mis Awst 2023 ar Gampws Penglais. Mae hwn yn lle pwrpasol i ymchwilwyr ryngweithio, datblygu a chydweithio â’i gilydd ac â phartneriaid allanol ar weithgareddau cyfnewid gwybodaeth. Mae’r ystafell hon yn hwyluso trefniadau a all gael eu haddasu i ganiatáu digwyddiadau personol, hybrid ac ar-lein. Bydd y cynlluniau ar gyfer lle ychwanegol i Ganolfan Ddeialog yn yr Hen Goleg yn cael eu gwireddu ym mlynyddoedd 4 a 5 o’r cyfnod strategol nesaf.

## Ymgysylltu’n Weithredol â Chyllidwyr Rhanbarthol

**Nod: Ymgysylltu’n weithredol â chyllidwyr rhanbarthol yng Ngheredigion a Phowys drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, gan gefnogi’r “Weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru”, rhaglen Blaenoriaeth 5 yr ESF, Bargen Twf Canolbarth Cymru a gweithgorau rhanbarthol mewn cymorth ar gyfer menter, cyflogadwyedd a sgiliau.**

Cafodd yr holl weithgareddau a gynlluniwyd eu cyflawni yn ystod y cyfnod strategol hwn. Cyflwynwyd dau gais mawr am arian yn 2023 drwy Fargen Twf Canolbarth Cymru ac yn 2024 roedd y rhain yn cael eu harfarnu yn y cam Achos Busnes Amlinellol. Hefyd, mae cynrychiolwyr o’r Brifysgol yn eistedd ar Fwrdd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a Grwpiau Clwstwr Sgiliau Rhanbarthol, gan weithio gyda’r rhanddeiliaid i sbarduno buddsoddiadau mewn sgiliau trwy ddeall bylchau sgiliau lleol a rhanbarthol. Rydyn ni wrthi hefyd yn mynd ar drywydd cyfleoedd cyllido mewn Arloesi drwy Horizon Europe gan fod y Deyrnas Unedig erbyn hyn yn bartner cymwys yn y rhaglen.

Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Mid Wales Regional Skills Partnership

## Cyllid Canolbarth Cymru ar gyfer Twf

**Nod: Sicrhau isafswm o £20m mewn buddsoddiad cyfalaf o Fargen Twf Canolbarth Cymru, yn gysylltiedig â mentrau ym meysydd blaenoriaeth strategol Ymchwil Arloesi Diwydiannol Prifysgol Aberystwyth.**

Cyflwynodd Prifysgol Aberystwyth ddau brosiect cyfalaf mawr i dîm Bargen Twf Canolbarth Cymru, sydd wedi symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. Mae'r cyntaf yn golygu datblygu lle ar gyfer deor busnesau ac arloesi mewn cydweithrediad ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan ganolbwyntio ar Arloesi ar gyfer Dyfodol Gwyrdd. Mae'r ail gais yn golygu datblygu cyfleuster aml-safle ar gyfer arloesi technoleg ddigidol, profi cysyniadau a chaniatáu gwaith galluoedd, o'r enw y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol. Bydd y ddau brosiect yn estyn ar draws rhanbarthau Ceredigion a Phowys a bydd cyflawni'r ddau brosiect yn rhan o gynllun strategol nesaf CAYC.

Archwiliwyd trydedd fenter i ddatblygu Fferm y Dyfodol: rhwydwaith o labordai amaethyddol byw gyda chrynodiad o ymchwilio a masnacheiddio ar Fferm Trawsgoed Prifysgol Aberystwyth. Mae'r cysyniad hwn yn adeiladu ar gryfderau'r rhanbarth a'r Brifysgol mewn amaethyddiaeth, bwyd, ynni adnewyddadwy a gwyddor filfeddygol. Er mwyn sicrhau bod galluoedd cysylltiedig ar draws safleoedd labordai byw, aeth prosiect cychwynnol ati i ddefnyddio gallu di-wifr LoRaWAN ar draws fferm a chyfleusterau'r Brifysgol. Bydd rhagor o ddatblygu ar y cysylltedd digidol hwn yn ogystal â chynaliadwyedd ynni yn digwydd yn y cyfnod strategol nesaf.

Archwiliwyd pedwaredd fenter i ddatblygu Hwb Arloesi Cnydau fel cyfleuster cyfnewid gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ar gyfer technoleg cnydau planhigion mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Byddai angen rhagor o ymchwil ac astudiaethau hyfywedd yn ystod y cyfnod strategol nesaf.



## Cynyddu'r Gweithgarwch mewn Ymchwil Arloesi Diwydiannol

**Nod: Gweithio gyda phartneriaid diwydiannol newydd a phresennol i ddatblygu piblinell ymchwil drosiadol y Brifysgol.**

Penododd Prifysgol Aberystwyth Gyfarwyddwr newydd i arwain y Ganolfan Sbectrwm Cenedlaethol yn 2023. Bydd yr Athro Amit Mishra yn helpu i ddatblygu fframweithiau llywodraethu, llinellau cynnyrch a chynlluniau gweithredol y Ganolfan. Bydd piblinell adnabyddadwy o brosiectau yn parhau yng nghamau cynnar y cyfnod strategol nesaf a disgwylir camau terfynol y buddsoddiad mawr yng nghanol 2025 ac wedyn.

NATIONAL SPECTRUM CENTRE
CANOLFAN SBECTRWM GENEDLAETHOL

## Datblygu Gwydnwch Gwledig trwy Arloesi

**Nod: Sefydlu rhwydwaith menter sy'n adeiladu Twf Economaidd, Gwydnwch Gwledig ac Arloesi (GRRaIN).**



Sefydlwyd y rhwydwaith hwn i drosglwyddo gwybodaeth a'r arferion gorau i fusnesau gwledig a darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant. Cafodd ei weithgareddau eu hyrwyddo gan Ysgol Fusnes y Brifysgol ac maent bellach yn rhan o raglen ein Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter. Roedd gweithgarwch y rhwydwaith a gwblhawyd mewn cydweithrediad ag ArloesiAber yn cynnwys gweminarau a gweithdai ar bynciau fel: "Troseddau Gwledig yng Nghymru", "Diwydiannau Creadigol yn yr Economi Gwledig", "Swyddi Gwyrdd a Chynaliadwyedd" a "Chymhwyso a datblygu technoleg LoRaWAN yng nghefn gwlad".

## Pecyn Cymorth Cyfnewid Gwybodaeth

**Nod: Datblygu pecyn cymorth ar-lein a darparu hyfforddiant i'r staff academaidd mewn Cyfnewid Gwybodaeth**

Darparwyd hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Dyluniwyd sesiynau i ymchwilwyr ddysgu a rhannu'r arferion gorau sy'n ymwneud â chyfnewid gwybodaeth, masnacheiddio ac ymgysylltu â busnes. Lansiwyd deunyddiau cyfarwyddyd hefyd ar ein gwefan, gan goladu'r holl adnoddau hyfforddi mewn pecyn cymorth cyfnewid gwybodaeth.



## Partneriaethau Strategol gyda Diwydiant

**Nod: Defnyddio system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) newydd ynghyd â System Contractau a Chofnodion Partneriaeth i nodi partneriaethau strategol allweddol.**

Dechreuwyd comisiynu CRM yn 2022 ac mae'r perthnasoedd bellach yn cael eu cofnodi'n ganolog, ond bydd gwaith i integreiddio â systemau gwasanaeth eraill sy'n caniatáu i wybodaeth gael ei chyfnewid yn ymestyn i mewn i gyfnod strategol 2023-2028. Bydd y systemau integredig yn caniatáu twf gyda phartneriaethau strategol, cysoni â chryfderau sectorau'r rhanbarth a galluoedd ymchwil y Brifysgol trwy gynlluniau ymgysylltu aml-lefel. Un enghraifft o bartneriaeth o'r fath yw'r bartneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol lleol, sy'n cynnwys cyd-gyflawni ymchwil, darparu ymyriadau meddygol arloesol yn uniongyrchol i gleifion lleol a meddygfeydd lleol drwy gysylltu darparwyr gwasanaethau preifat a chyhoeddus ar y lefel leol.




## Ceisiadau i UKRI

**Nod: Cynyddu nifer y ceisiadau am gyllid UKRI dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth.**



Gwnaethon ni'n well na tharged sylfaenol 2019-2020 o chwe chais llwyddiannus a strategol i Innovate UK. Arweiniodd llwyddiannau gyda grantiau Innovate UK yn 2023 at ddyfarniadau gwerth dros £750,000. Cafodd arbenigedd allanol ei gontractio i uwchsgilio staff y gwasanaethau academaidd a phroffesiynol wrth ddatblygu cydweithrediadau y tu hwnt i'r sector Addysg Uwch, gan ddatblygu ceisiadau cyllid cystadleuol yn ogystal ag ariannu cymorth gydag ysgrifennu ceisiadau. Darparwyd cefnogaeth i 10 academydd dethol o ganlyniad i'r gwaith hwn. Mae'r cymorth hwn sydd wedi'i deilwra yn ymestyn i mewn i'r cyfnod strategol nesaf a'r rownd nesaf o ddyddiadau cau ym mis Medi 2023.

## Ceisiadau am Gyllid Arloesol

**Nod: Cynyddu nifer, gwerth ac ansawdd y ceisiadau i raglenni ariannu ymchwil drosiadol.**

Cafodd y gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod strategol ei gyflawni'n llwyddiannus ac roedd yn cynnwys dyfarniadau newydd ar gyfer prosiectau cyllido trosiadol mewnol o fwy na £35,000; cyfres o sesiynau hyfforddi ar Eiddo Deallusol; datblygu meddalwedd a masnacheiddio datblygiadau y tu allan i STEM yn ogystal â throsoli rhwydweithiau sy'n cydweithredu ar arloesi yn seiliedig ar aelodaeth.



## Incwm Ymgynghori

**Nod: Cynyddu'r incwm o ymgynghori 15%, gan ddefnyddio data o'r arolwg Busnes Addysg Uwch a Rhyngweithio Cymunedol (HE-BCI) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn waelodlin.**



25% o gynnydd

Fe wnaethon ni'n well na'r targed gyda'r incwm o ymgynghori yn cynyddu 25%. Un o'r ffactorau allweddol yn y gamp yma oedd ymagwedd bendant at ymgysylltu â hyrwyddwyr ymgynghori mewn adrannau academaidd ac adrannau gwasanaeth i siapio'u harlwy ymgynghoriaeth a'u proses o ddatblygu cysylltiadau â phrynwyr posibl. Yn ychwanegol, cafodd Polisi Ymgynghori a Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol eu hadolygu a'u diwygio i wella eglurder a dealltwriaeth ar draws y gymuned ymchwil. Cyflwynwyd systemau a gweithdrefnau newydd ar gyfer casglu metrigau ynglŷn â gweithgareddau ymgynghori ar draws y sefydliad. Mae rhagor o welliannau yn y gwaith hwn, a all gael eu rhoi ar waith ar raddfa ehangach, wedi'u cynllunio ar gyfer cyfnod strategol 2023-2028.



40% increase

## Incwm o Gontractau Ymchwil

**Nod: Cynyddu'r incwm o Gontractau Ymchwil 15%, gan ddefnyddio data o'r arolwg HE-BCI 2019-2020 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn waelodlin.**

Fe wnaethon ni'n well na'r targed arfaethedig a chynyddodd yr incwm o gontractau ymchwil 40% drwy fabwysiadu'r mesurau a restrir uchod.

## System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid

**Nod: Datblygu a gweithredu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) i gasglu, monitro a datblygu strategaethau ar gyfer ymgysylltu allanol ar draws y Brifysgol.**

Dewiswyd Microsoft Dynamics fel y system CRM a oedd yn cyd-fynd orau â llwyfannau Microsoft eraill a ddefnyddir gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Mae uwchlwytho data o nifer o hen systemau rheoli data, rhaglenni a phrosiectau ymchwil yn dal yn elfen lafurddwys yn y prosiect hwn, ac felly bydd yn parhau i mewn i'r cyfnod strategol nesaf. Bydd yn cael ei integreiddio â'n system cyllid ac adnoddau dynol yng ngwanwyn 2023, a disgwylir lansio system rheoli ymchwil newydd, Worktribe, yn haf 2023, a system rheoli contractau, Minuet, yn hydref 2023.

## Concordat Cyfnewid Gwybodaeth

**Nod: Cyflwyno polisïau, egwyddorion, strategaethau a gweithdrefnau sy'n ategu ac yn hyrwyddo gofynion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth.**



Mae'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn fenter dan arweiniad y sector a sefydlwyd i gydnabod, datblygu a gwella sut mae darparwyr addysg uwch yn cymryd rhan mewn prosesau cyfnewid gwybodaeth. Er mwyn ategu amcanion y Concordat, cynhaliwyd ymarfer hunanasesu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn comisiynu cynllun gweithredu yn 2021-2022. Parhaodd y broses o weithredu yn ystod 2022-2023 ac mae ein cysondeb ag egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth trwy ddeilliannau allweddol y sefydliad wedi'i ymgorffori yn Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth CAYC 2023-2028. Wrth weithredu egwyddorion y Concordat ynglŷn ag ymgysylltu, gweithio'n dryloyw ac yn foesegol, yn ogystal ag adeiladu'r gallu i gyfnewid gwybodaeth, cychwynnwyd galwad agored fewnol am gyllid cyfnewid gwybodaeth yn nwy flynedd olaf y cyfnod strategol. Nododd hyn yr awydd a'r sgil i ymgymryd â chyfnewid gwybodaeth a'r cymorth y gallem ei gynnig er mwyn cynyddu gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

Dros y tri chylch o gyllid galwadau agored, proseswyd dros 40 o geisiadau a dosbarthwyd £360,000 o gyllid i academyddion ymroddgar i wneud gwaith cyfnewid gwybodaeth gyda chymorth tîm yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi. Mae'r ddirnadaeth a gasglwyd o'r broses hon bellach yn cael ei defnyddio i fwydo mecanweithiau cymorth YBA ar gyfer y cyfnod strategol nesaf.

## Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN)

**Nod: Ymgysylltu â Rhwydwaith Arloesi Cymru i helpu i wireddu ei nod o sicrhau £30m yn ychwanegol i sefydliadau Cymru dros gyfnod cychwynnol o dair blynedd ac adrodd data ar y ceisiadau a ddatblygir.**

Llwyddodd pedwar cais ar gyfer prosiectau Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) ym mis Hydref 2022, gan ddod â chyllid gwerth tua £150,000 a chadarnhau ein rôl yng ngwaith arfaethedig y rhwydwaith. Bydd y ceisiadau'n parhau ar gyfer cylchoedd ariannu yn y dyfodol. Mae gennyn ni gynrychiolaeth sefydliadol ar Fwrdd WIN a menter cydweithredu WIN mewn masnacheiddio, yn ogystal â chynrychiolaeth academaidd ar y grwpiau llywio thematig. Yn ychwanegol, mae staff gwasanaethau proffesiynol YBA yn cynrychioli Prifysgol Aberystwyth ar Grŵp Gweithredu a Datblygu WIN.



## Ystorfa Ddigidol Ddibynadwy Cymru




**Nod: Sefydlu menter Ystorfa Ddigidol Ddibynadwy i Gymru gyda phartneriaid rhanbarthol a sicrhau buddsoddiad o £70M+ i’r rhanbarth.**

Nod menter Ystorfa Ddigidol Ddibynadwy Cymru yw creu ystorfa genedlaethol a alluogir gan ddeallusrwydd artiffisial mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Profodd ein prosiect peilot mewn cydweithrediad â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau brototeip dysgu drwy beiriant i baratoi ar gyfer prosiect ehangach i ddatblygu seilwaith cenedlaethol ar gyfer arloesi digidol a churadu yn y celfyddydau a’r dyniaethau.

# Twf Busnes Newydd a Chefnogi Sgiliau

## Darparu Datblygu Proffesiynol Parhaus - Cynllunio Strategol

**Nod: Datblygu strategaeth, polisi a gweithdrefnau canolog ar gyfer darparu Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP).**

Cyn datblygu strategaeth ganolog, cafodd archwiliad mewnol o ddarpariaeth DPP ac ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid eu cynnal yn 2021-2022. Cafodd y cam nesaf ei ohirio’n fwriadol i sicrhau na fyddai gwelliannau ac effaith y ddarpariaeth Dysgu o Bell a gafwyd o ganlyniad i ganllawiau pandemig COVID-19 yn dylanwadu ar ein data na’n penderfyniadau at y dyfodol. Comisiynwyd dadansoddiad marchnad ac asesiad cyfleoedd annibynnol ar ôl COVID yn 2022-2023, gyda’r canfyddiadau’n cael eu hadolygu ac wedyn yn bwydo’r cynllun strategol, y cynllun llywodraethu a’r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod 2023-2024.



## Darparu Datblygu Proffesiynol Parhaus - Ehangu ac Amrywio

**Nod: Ehangu ac amrywio’r ddarpariaeth DPP bresennol a thargedu sectorau newydd. Cynyddu Diwrnodau Dysgwyr 10% y flwyddyn, gan ddefnyddio data o arolwg HE-BCI 2019-2020 yn waelodlin.**



Ar ôl gohirio datblygu’r cynllun strategol, y cynllun llywodraethu a’r cynllun gweithredu oherwydd pandemig COVID-19, cafodd y dyhead o blaid twf ei ddisodli wedyn gan ostyngiad disgwyliedig o 16% yn y diwrnodau dysgwyr yn y cyfnod 2020-2023. Bydd y gostyngiad yn cael ei wrth-droi unwaith y bydd y strategaeth, y polisi a’r gweithdrefnau newydd ar waith yn ystod cyfnod strategol nesaf CAYC.

## Rhaglen Bio-Sbardunwyr

**Nod: Ariannu dwy raglen Bio-Sbardunwyr ar gyfer busnesau newydd a mentrau deillio trwy ArloesiAber.**



Cychwynnwyd y rhaglen Bio-Sbardunwyr yn 2022 a'i hariannu drwy'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC). Roedd y rhaglen yn llwyddiannus wrth gefnogi egin entrepreneuriaid ac o ganlyniad, defnyddiwyd cronfeydd CAYC i ddatblygu rhaglen sbarduno cydategol yn 2023, a frandiwyd fel AberCURe. Cafodd y rhaglen hon ei theilwra fel paratoad ar gyfer rhaglen ehangach iCURe o dan aden UKRI. O ganlyniad i alwad AberCURe am geisiadau, dewiswyd chwe phrosiect ar gyfer bŵt-camp arbennig, a oedd yn cynnwys datblygu eu harlwy masnachol, eu hamcan o'u gwerth a'u strategaethau marchnata. Nodwyd y tri phrosiect mwyaf arbennig yn ystod y bŵt-camp, ac mae pob un o'r rhain wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fireinio'u harlwy, gyda'r bwriad o fynd ar drywydd cyfleoedd cyllido ehangach i fynd â'u syniadau i'r farchnad.

## Canolfan Sbectrwm Genedlaethol

**Nod: Sefydlu rhaglen i fyfyrwyr wedi'i hariannu gan ddiwydiant ar gyfer yr MSc mewn Technolegau Sbectrwm trwy'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol.**

Fel ymrwymiad i ddarparu sgiliau ar gyfer y diwydiant, fe alluogwyd addysg wedi'i hariannu gan fusnes ar lefel Meistr i'r rhai a gyflogir yn y sector technoleg sbectrwm neu'r rhai sy'n ceisio mynd i mewn iddo. Cafodd yr arian hwn ei gyflawni yn ystod dwy flynedd olaf y cyfnod strategol, gyda'r bwriad o barhau ac ymestyn lleoedd yn y dyfodol. Rydym yn rhagweld ehangu'r cynnig hwn i gynnwys prentisiaethau gradd yn ystod tair blynedd gyntaf y cyfnod strategol nesaf.



## Canolfan a Labordai Milfeddygol1

**Nod: Datblygu cynnig masnachol ar gyfer sefydlu strategaeth a gweithdrefnau i dargedu, prisio a darparu gwaith sgrinio masnachol ar gyfer Canolfan a Labordai Milfeddygol1.**



Ar ôl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, daeth adolygiad o gyfleuster Canolfan a Labordai Milfeddygol1 i'r casgliad bod yna botensial masnachol ehangach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Comisiynwyd ymarfer dilysu'r farchnad a chreu cynllun datblygu busnes ar draws lled llawn gwasanaethau posibl Canolfan a Labordai Milfeddygol1. Wnaeth yr ymarfer hwn ddim gohirio rhoi'r cyfleuster ar waith gan fod oedi yn y gadwyn gyflenwi a'r gwasanaeth a achoswyd gan bandemig COVID-19 a'r rhyfel yn Wcráin eisoes wedi atal tystysgrif cyfyngu'r labordy rhag cael ei rhoi. Dechreuir rhoi'r cynllun ar waith yn ystod y cyfnod strategol nesaf.



## Menter yr Hen Goleg

**Nod: Llunio cynllun gweithredol ar gyfer yr Ardal Fenter ac Arloesi.**

Fel gyda llawer o brosiectau cyfalaf ar draws y Brifysgol, mae gohirio arwyddocaol yn yr amserlenni adeiladu yn sgil y rhyfel yn Wcráin a COVID-19 wedi ymestyn y prosiect hwn i mewn i'r strategaeth nesaf. Fel mesur dros dro, mae'r Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter wedi dod yn ganolbwynt i'r rhaglenni cymorth menter (gweler isod).

## Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter

**Nod: Sefydlu Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter a datblygu strategaeth gydlynol a phrosesau cydlynol ar gyfer cymorth menter i fyfyrwyr, graddedigion, staff a busnesau.**


Cyflwynwyd yr Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter yn 2022 ar Barc Gwyddoniaeth Aberystwyth ac mae wedi'i gydleoli gyda thimau gwasanaeth proffesiynol cyfnewid gwybodaeth. Datblygwyd strategaeth newydd ar gyfer cymorth menter yn 2022 ac mae gweithredu honno'n parhau i mewn i'r cyfnod strategol nesaf, drwy gyfuno'r cynlluniau menter cymorth i fyfyrwyr a staff sy'n sail i ffrydiau gwaith a fframwaith llywodraethu'r hwb. Gyda chymorth yr Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter a dyraniad grant CAYC, cafodd tri hwb ymchwil drawsddisgyblaeth eu sefydlu hefyd. Mae gan bob un strategaeth cyfnewid gwybodaeth benodol sy'n cysoni'n cryfderau ymchwil â'r dyheadau datblygu economaidd lleol ar gyfer economi gwledig gwydn, yn ogystal â buddsoddi mewn arloesi sy'n cael effaith ledled Cymru gyfan.




## Sefydlu ac Ymgysylltu â Rhwydweithiau Busnes

**Nod: Cynnal a sefydlu rhwydweithiau newydd gyda rhwydweithiau busnes lleol a rhanbarthol.**

Llwyddodd prosiect y Rhwydwaith Arloesi Twf a Gwydnwch Gwledig i roi cymorth i fentrau gwledig. Yn sgil recriwtio rheolwyr partneriaeth dynodedig yn llwyddiannus yn 2023, gall hyn bellach ymestyn i rwydwaith ehangach gyda mwy o weithgarwch wedi'i gynllunio drwy'r Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter.



Bydd integreiddio'r system CRM sydd newydd ei chomisiynu yn cysoni'r gwaith hwn â gwaith i ddatblygu partneriaethau strategol yn ogystal â chynhyrchu rhwydwaith i'n hybiau ymchwil drawsddisgyblaeth a'u rhaglenni cyfnewid gwybodaeth nhw.



## Grŵp Entrepreneuriaid i Gyn-fyfyrwyr

**Nod: Sefydlu Grŵp Entrepreneuriaid i Gyn-fyfyrwyr, gan weithio gyda Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni'r Brifysgol.**

Cafodd y prosiect cydweithredol hwn ei ohirio oherwydd newidiadau yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni a effeithiodd ar yr adnoddau oedd ar gael. Bydd penodiadau newydd ym mis Gorffennaf 2023 yn fodd i'r prosiect gael ei roi ar waith yn y cyfnod strategol nesaf ac rydym yn disgwyl i rychwant y prosiect gael ei ddatblygu a'i gytuno erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, gydag uchelgais y prosiect yn parhau'n ddigyfnewid.

## Hyrwyddwyr Academaidd Mentergarwch (ACE)

**Nod: Ymgorffori entrepreneuriaeth yn niwylliant y cyfadrannau academaidd trwy rwydwaith o hyrwyddwyr mentergarwch.**

Mae hyn wedi'i gyd-gyflawni â Thîm Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol a'r Grŵp Menter Strategol. Cyrhaeddwyd y targedau o sicrhau bod 20 o raddedigion yn dechrau busnesau yn 2021 a 22 yn 2022, a disgwylir 24 yn 2023 (canlyniadau yn yr arfaeth o ffynonellau gwybodaeth allanol). Sefydlwyd y rhwydwaith Hyrwyddwyr Academaidd Mentergarwch (ACE) ar draws 14 o'r 19 o adrannau academaidd a gwasanaeth a dargedwyd. Llwyddodd y cynllun "Cwrdd â'r Entrepreneur Ieuenctid" i wneud yn well na'r targed o gael 20 o fusnesau newydd gan raddedigion yn 2021 a chyrhaeddwyd y targedau o 22 yn 2022 a 24 yn 2023.



## Cymorth i Entrepreneuriaid

**Nod: Helpu staff, myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr doethurol mentrus i ddatblygu cyfleoedd i ddechrau busnesau a mentrau deillio.**



Cafodd cynllun ariannu cystadleuol ei gyflwyno ar y cyd â Thîm y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Grŵp Menter Strategol y Brifysgol, gan gynnwys cystadleuaeth Gwobr Menter Aber i fyfyrwyr gan wobrwyo myfyrwyr entrepreneuraidd sydd â syniadau a mentrau busnes newydd. Roedd rhaglen "AberPreneuriaid" yn cynnwys cymorth a hyfforddiant wedi'i deilwra ym meysydd ymchwil farchnad wedi'i thargedu, gwerthuso hyfywedd masnachol, asesu cyfleoedd am bartneriaethau a/neu gyd-ddatblygiadau a modelu busnes.

## Polisi ar Fentrau Deillio

**Nod: Sefydlu polisi sefydliadol ar fentrau deillio a hybu gweithgarwch sy'n arwain at fentrau deillio.**



Cymeradwywyd y polisi newydd ar fentrau deillio gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Gorffennaf 2023 yn sgil adolygiad cyflawn o bortffolio Eiddo Deallusol (IP) a pholisi IP y Brifysgol, yn ogystal ag adolygu'r polisi Ymgynghori. Ochr yn ochr â rhyddhau'r polisïau newydd a diwygiedig hyn, cafodd holl staff yr adran YBA hyfforddiant ar ddatblygu busnes, cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr o gynnwys y polisi a sut roedd hyn yn gysylltiedig â phrosesau datblygu busnes, terminoleg cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau'r diwydiant. Mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn bodloni'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn y cyfnod strategol hwn.

## Mentrau Deillio Newydd

**Nod: Sefydlu tair menter ddeillio newydd yn seiliedig ar Eiddo Deallusol Prifysgol Aberystwyth dros dair blynedd.**

Sefydlwyd dwy fenter ddeillio (ArcitekBio Ltd ac IOMICS) yn y cyfnod 2020-2022 ac mae'r drydedd fenter ddeillio (Auxilium) wrthi'n cael ei datblygu yn y cyfnod beta, gyda'r sylfaenwyr yn dilyn rhaglen AberCURe.

ARCITEKBio Limited | Auxilium | iOmics Biomarker Fingerprinting

## Masnacheiddio Ymchwil y tu allan i STEM

**Nod: Datblygu mentrau i ymgysylltu ag ymchwil a helpu i fasnacheiddio ymchwil yn y gwyddorau cymdeithasol, y dyniaethau a'r celfyddydau.**




Cyflawnwyd hyn gyda chymorth rhwydwaith ASPECT fel partner cyswllt. Mae entrepreneuriaeth y tu allan i STEM wedi'i gwobrwyo drwy gyfrwng ein rhaglen fewnol Gwobr Menter Aber i fyfyrwyr a chawsom lwyddiant allanol yn sgil datblygu ap yn yr Adran Ieithoedd Modern fel rhan o raglen Sbardunwr ARC dan aden ASPECT.

Mae datblygu ap symudol mewn pwnc y tu allan i STEM yn un allbwn o'n hyfforddiant mewn masnacheiddio a'n cynllun ariannu cystadleuol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu apiau.

## Datblygu Cymwysiadau Meddalwedd

**Nod: Datblygu strategaeth, polisi a phrosesau ar gyfer datblygu a dosbarthu cymwysiadau meddalwedd gan gynnwys cymorth a mentora.**

Cafodd y rhaglen fewnol hon o hyfforddiant a chyllid sbarduno cystadleuol ei lansio yn 2022-2023. Darparwyd hyfforddiant gan ddatblygwr apiau sydd wedi ennill ei blwyf, a gallai'r cyfranogwyr ennill cymhwystra i gael rhagor o gyllid masnacheiddio i'w cysyniad ar sail cystadleuaeth. Cymerwyd asiantaethau datblygu apiau proffesiynol ymlaen i ddilysu'r cysyniadau ac i roi cymorth masnacheiddio i'r rhai a fyddai'n ennill cyllid yn y dyfodol. Bydd llwyddiant y rhaglen hon o ran adnabod staff a myfyrwyr ymroddgar a datblygu eu potensial masnachol yn golygu y bydd yn parhau yn y cyfnod strategol nesaf, a disgwylir i'r buddion sydd i'w gwireddu ddod i'r amlwg ym mlwyddyn 4 neu 5 o'r cyfnod hwnnw.






## Rhyngweithio â Cholegau Addysg Bellach

**Nod: Gweithio'n agos gyda'r timau Dysgu ac Addysgu i gynyddu'r rhyngweithio â cholegau addysg bellach lleol.**

Gan fod oedi arwyddocaol wedi'i achosi am fod llai o adnoddau ar gael oherwydd y pandemig, byddwn yn edrych eto ar uchelgais y rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod strategol nesaf, pan fydd ymarfer rhychwantu yn sicrhau ein bod yn cynnwys cryfderau newydd y ddarpariaeth Dysgu ac Addysgu yn y Brifysgol, yn enwedig mewn perthynas â'r Ysgol Filfeddygol newydd a'r Ysgol Nyrsio newydd.

## Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â’r Cyhoedd

### Seilwaith Sain a Fideo Rhyngweithiol o’r radd flaenaf

**Nod: Sefydlu seilwaith sain a fideo rhyngweithiol o’r radd flaenaf ar draws y Brifysgol i fanteisio ar y newid digidol ar ôl COVID-19 a galluogi digwyddiadau hybrid.**

Yn 2023, yn sgil agor y Tŷ Trafod Ymchwil, cafwyd seilwaith clywedol a gweledol o’r radd flaenaf ar gyfer cynnal digwyddiadau 360 gradd, hybrid ac ar-lein byw. Gyda lle i 60+ mae’r gofod pwrpasol hwn ar gyfer creu cyfnewidfa wybodaeth yn cael ei ategu gan fannau llai sydd â’r un cyfleusterau hybrid wedi’u gosod yn yr Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter.



### Cynnal Digwyddiadau Diwylliannol a Chreadigol Ar-lein



**Nod: Cynnal digwyddiadau diwylliannol a chreadigol ar-lein trwy’r seilwaith clyweledol newydd ar draws y Brifysgol.**

Yn ystod 2022-2023 cynhaliwyd sawl digwyddiad drwy ddefnyddio seilwaith presennol y Brifysgol, a oedd yn cynnwys digwyddiadau hybrid ac ar-lein yn unig. Traddodwyd dwy ddarlith gyhoeddus ar-lein yn ystod Gŵyl Ymchwil 2021 gyda thair trafodaeth banel, un symposiwm a dwy ddarlith gyhoeddus yn ystod Gŵyl Ymchwil 2022.

### Gweithgareddau Gŵyl y Gelli

**Nod: Gweithio gyda Gŵyl y Gelli i ddatblygu cynnwys digidol ar gyfer mynediad ehangach, gan gynnwys ysgolion.**

Cafodd cynnwys digidol ei greu a’i ddosbarthu fel rhan o Ŵyl y Gelli rhwng 2020 a 2022. Mae’r cydweithrediad â Gŵyl y Gelli yn parhau yn 2023 ac wedyn, ac fe gyflwynodd pedwar o ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth gyfres o ddarlithoedd fel rhan o raglen yr ŵyl. Yn unol â gofynion trefnwyr Gŵyl y Gelli, cyflwynwyd y darlithoedd cyhoeddus hyn ar lwyfan yr ŵyl yn gyntaf ac mae’r recordiadau bellach ar gael ar wefan y Brifysgol. Caiff y cydweithio yma ei adolygu yn ystod y cyfnod strategol nesaf.



## Sefydlu Rhaglen "Y Bydoedd a Fynnwn"


**Nod: Datblygu hwb rhyngddisgyblaeth Prifysgol Aberystwyth ar gyfer meddwl ac ymchwil cenedlaethau'r dyfodol.**

Cafodd y nod hwn ei ehangu i gefnogi tri hwb ymchwil a chyfnewid gwybodaeth trawsddisgyblaeth yn sgil ymgynghori ag aelodau'r hybiau. Mae'r tri hwb i gyd ar waith ers 2022 ac mae pob un yn gweithredu yn unol ag amcanion hirdymor sy'n creu achos cystadleuol dros gyllid fel canolfannau allanol o fewn amserlen pum mlynedd. Y tri hwb yw: Y Bydoedd a Fynnwn, Dyfodol Gwledig a Deallusrwydd Artiffisial.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Nod: Adeiladu ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chydweithio â rhanddeiliaid eraill e.e. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, gyda'r bwriad o sefydlu Canolfan Ymchwil ac Arloesi ddiwylliannol.**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod wrthi'n gweithio ar ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymgorffori ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid ar gyfer y prosiect. Mae'r broses o ddatblygu'r bartneriaeth yn parhau, gyda gweithgareddau gafodd eu cyd-gyflwyno fel rhan o Ŵyl Ymchwil y Brifysgol yn cyfrannu at gryfhau'r berthynas. Mae saib yn y gweithgareddau yn 2023 yn gyfle i fireinio a gwella'r berthynas yn ogystal â chynlluniau'r prosiect ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.



## Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru

**Nod: Ymgysylltu â Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru i ganiatáu i arferion da gael eu rhannu gyda sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru ac ystyried ffyrdd mwy deinamig o ymgysylltu.**

Cyflawnodd y Brifysgol ei hymrwymiad i fod yn bresennol a chymryd rhan yn Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru gan gyfnewid yr arferion gorau. Bydd hyn yn bwydo'r cam nesaf yn y gwaith a hyrwyddir gan Brif Arweinydd y Ganolfan Ddeialog, i lunio strategaeth sefydliadol o amgylch ein cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltiad cymunedol cyfranogol. Bydd y strategaeth yn gyson â Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru a sefydlwyd gan Brifysgolion Cymru ynghyd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



## Gŵyl Ymchwil

**Nod: Cynnal Gŵyl Ymchwil flynyddol, gan ddechrau yn 2021.**

Mae'r Ŵyl Ymchwil flynyddol wedi'i chynnal bob mis Tachwedd ers 2021. Yn 2022, cynhaliodd Prifysgol Aberystwyth 17 o ddigwyddiadau fel rhan o'r ŵyl, tra cynhaliwyd 4 digwyddiad arall mewn cydweithrediad â sefydliadau allanol. Mae'r ŵyl wedi cynyddu'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd, gan alluogi'r Brifysgol i ryngweithio â chymunedau lleol a'r gymdeithas ehangach. Bydd rhaglen 2023 yn para saith diwrnod, yn cynnal 20 o ddigwyddiadau mewn 10 lleoliad gwahanol, gydag amcangyfrif o gynulleidfa o 600 o bobl. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn yn gynnar yn 2024.



# Diweddglo

Mae ymchwilwyr yn Aberystwyth wedi bod yn gwneud darganfyddiadau newydd ac yn rhannu gwybodaeth ers 150 o flynyddoedd. Mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae mathau o laswellt sy'n cael eu bridio yma wedi arwain at gnydau gwell ar ffermydd ac wedi dod â manteision amgylcheddol hefyd; mae'n gwyddonwyr cyfrifiadureg yn archwilio defnyddio algorithmau dysgu dwfn i helpu i wella'r broses o ganfod canser y prostad, canser y fron a diabetes yn gynnar; mae'n gwyddonwyr cymdeithasol ar flaen y gad o ran gwaith i ddiogelu'r henoed rhag trais a cham-drin domestig.

Mae mynd â'n hymchwil allan o'r labordy a chymhwyso'n canfyddiadau at broblemau'r byd go iawn yn greiddiol i'n cenhadaeth fel prifysgol. A minnau'n Gyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi, fy rôl i yw meithrin a hwyluso'r llif pwysig hwn o arbenigedd a chyfnewid gwybodaeth rhwng ein hymchwilwyr a'n cymunedau allanol, gan sicrhau bod systemau a chymorth proffesiynol priodol ar waith i hybu arloesedd a datblygu partneriaethau.

Mae cymorth gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) yn 2020-2023 wedi bod yn fodd inni gryfhau a datblygu'r agwedd bwysig hon ar ein gwaith ymhellach ac rwy'n ddiolchgar i staff ar draws y Brifysgol sydd wedi helpu i gyflawni cynifer o brosiectau arloesol yn ystod y cyfnod strategol cyntaf. Erbyn hyn, rydym yn canolbwyntio'n hymdrechion ac yn gweithio gyda chydweithwyr ar sicrhau llwyddiant ein hail gylch o gymorth CAYC ar gyfer y cyfnod 2023-2028.

Diolch i CAYC, rydym wedi sefydlu Hwb Cyfnewid Gwybodaeth a Menter i fod yn borth i'r Brifysgol ar gyfer sefydliadau allanol sydd â diddordeb mewn cydweithio â'n hymchwilwyr neu mewn defnyddio'n cyfleusterau. Rydyn ni hefyd yn cynnig cymorth ymarferol a chyngor arbenigol i ymchwilwyr ac academyddion y Brifysgol ar Eiddo Deallusol a chontractau ymchwil cydweithredol. At hynny, rydym yn cefnogi ymchwilwyr sy'n sefydlu cwmnïau cychwynnol neu gwmnïau deillio ar sail Eiddo Deallusol y Brifysgol. Mae'r enghreifftiau o fentrau deillio diweddar yn cynnwys ARCITEKBio sy'n cynhyrchu melysyddion naturiol, cynaliadwy o ffrydiau gwastraff, a PhytoQuest sy'n datblygu cynhwysion cosmetig, bwyd ac iechyd anifeiliaid o dan reolaeth ansawdd.



Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi sy’n gyfrifol am gwmpasu, rheoli a chyflawni’r Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth a ariennir gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Arweinir y gwaith gan Gyfarwyddwr yr Adran, Helen Jones.

Fel gwasanaeth cymorth proffesiynol, ein nod ni yw rhoi arweiniad i staff ymchwil a’u harfogi â’r offer angenrheidiol i helpu i ddod o hyd i gyllid, datblygu ceisiadau, prisio cynigion, rheoli dyfarniadau grant a hybu cydweithredu â phartneriaid academaidd, partneriaid busnes a phartneriaid diwydiannol. Rydyn ni hefyd yn monitro ac yn cofnodi effaith yr ymchwil ac yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol, gan gynnwys gweithdai a digwyddiadau pwll tywod ar gyfer datblygu prosiectau rhyngddisgyblaeth.

Os oes gennych chithau ddiddordeb mewn darganfod mwy am sut y gallwch weithio gyda ni i harneisio pŵer ymchwil a sicrhau newid cadarnhaol, ewch i’n gwefan neu anfonwch neges ebost at drbi@aber.ac.uk. Byddwn yn edrych ymlaen at glywed gennych.

Medi 2023

**Arweinydd y Strategaeth Arloesi a Chyfnewid Gwybodaeth**

**Helen Jones**
Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi
drbi@aber.ac.uk



+44 (0) 1970 622385

drbi@aber.ac.uk

@AberRBI

aber.ac.uk/cy/rbi

Ymchwil, Busnes ac Arloesi /
Research, Business & Innovation

Ymchwil, Busnes ac Arloesi
12 Parc Gwyddoniaeth
Aberystwyth
SY23 3AH

This publication is available in Welsh and English. If this copy is not in your chosen language, contact drbi@aber.ac.uk and we will send another copy.

Dylunydd gan Ymchwil, Busnes ac Arloesi; Mehefin 2024.

Mae pob nod masnach arall yn eiddo i'w perchnogion priodol.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY